

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

Newport Smile Centre (Gupta &  
Gupta Ltd.), Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 22 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 23 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth sydd nesaf? .....	21
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o ddeintyddfa Newport Smile Centre (Gupta & Gupta Ltd.) ar 5 North Street, Casnewydd, NP20 1JT, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 22 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod deintyddfa Newport Smile Centre (Gupta & Gupta Ltd.) yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuom ambell faes i'w wella er mwyn i'r practis ddiwallu'r safonau a'r rheoliadau perthnasol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Gwelwyd bod y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn foesgar ac yn gwrtais.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn lân ac yn daclus.
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X a chyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion.
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan berchenogion y practis a thîm ehangach y practis.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi system ar waith i alluogi'r cleifion i ddarparu adborth.
- Sefydlu proses gadarn ar gyfer archwiliadau clinigol ac adolygiad gan gymheiriaid, gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella ac arfer gorau.
- Mae angen i ddeintyddion wella agweddau ar eu harferion cadw cofnodion.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Newport Smile Centre (Gupta & Gupta Ltd.) yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Casnewydd, de Cymru. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd (sy'n gweithredu fel rheolwr y practis hefyd), dwy nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, a derbynnydd.

Mae'r practis yn darparu arlwy o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

Mae gan Newport Smile Centre (Gupta & Gupta Ltd.) chwaer-ddeintyddfa sydd wedi'i lleoli'n agos ac sydd hefyd dan berchnogaeth y prif ddeintyddion. At ddibenion yr adroddiad hwn, deintyddfa North Street a arolygwyd yn unig.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.

Gwelsom fod angen i'r practis gyflwyno system i alluogi cleifion i ddarparu adborth am y gwasanaethau yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 20 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Wastad wedi gweld bod pawb yn gwrtais ac yn barod eu cymwynas"*

*"Hapus gyda'm triniaeth"*

## Cadw'n iach

Gwelsom fod nifer o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y man aros. Byddai hyn yn helpu i hyrwyddo'r angen i gleifion ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth gan y tîm deintyddol.

## Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol.



Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael croeso cynnes gan y tîm deintyddol a'u bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd y practis yn darparu arlwy o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat yn ogystal â chostau am driniaethau deintyddol y GIG ar gael i'w gweld yn y man aros ac ar wefan y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac mewn taflen wybodaeth i gleifion. Gwnaethom argymhell bod y practis yn gwirio'r daflen wybodaeth i sicrhau ei bod yn rhoi manylion cyswllt cywir a chyfredol cyrff allanol i'r cleifion. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym eu bod wedi cael cynnig i gyfathrebu â'r practis yn yr iaith o'u dewis. Gwelsom fod polisi cwynion y practis wedi'i arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### **Gofal amserol**

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad. Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi profi oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd. Esboniodd y rhai a oedd wedi profi oedi mai ychydig iawn o oedi yn unig yr oeddent wedi'i profi, a'u bod wedi cael cynnig apwyntiad arall pe bai'n briodol.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion ag angen gofal deintyddol brys. Roedd y rhif ffôn hwn wedi'i arddangos yn y dderbynfa, y tu allan i'r practis, ac roedd ar gael ar neges peiriant ateb y practis. Dywedodd dau draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Efallai byddai'r practis am ystyried sut y gall wella ymwybyddiaeth y cleifion o'r gwasanaeth hwn.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion, a chanfuom ar y cyfan fod opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

### **Hawliau pobl**

Roedd y practis mewn adeilad dau lawr, gydag un ystafell driniaeth ar y llawr daear a swyddfeydd ar y llawr cyntaf. Roedd y practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn a/neu'r rhai hynny ag anawsterau symudedd am fod ramp sefydlog yn arwain i fyny at y practis.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ynghylch sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa, ond dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn. Gwnaethom argymell y dylid diweddarau'r broses gwyno ar gyfer cleifion y GIG i gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd, yn unol â phroses Gweithio i Wella.<sup>1</sup> Gwelsom fod gan y practis un gŵyn a gofnodwyd, a bod dogfennau priodol wedi cael eu cynnal. Gwnaethom argymell, fodd bynnag, bod y practis hefyd yn cofnodi ac yn adolygu unrhyw gŵynion anffurfiol (llafar) mae'n eu derbyn. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y practis yn gallu dysgu yn sgil unrhyw broblemau a godwyd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Nid oedd gan y practis broses ar waith i alluogi'r cleifion i ddarparu adborth am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Gwnaethom argymell y dylai'r practis roi system ar waith sy'n galluogi cleifion i ddarparu adborth yn rheolaidd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella>

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis roi proses ar waith sy'n galluogi cleifion i ddarparu adborth am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer y cleifion. Gwelwyd bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r cyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.

Gwnaethom nodi hefyd bod angen gwneud rhywfaint o welliannau i agweddau ar arferion cadw cofnodion y deintyddion, ac mae'n ofynnol iddynt gymryd camau er mwyn cydymffurfio'n llwyr â'r safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhrychir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio mewn bin a oedd wedi'i gloi y tu allan i'r practis wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Er bod y bin wedi'i gloi, gan atal mynediad heb ganiatâd, roedd wedi'i leoli mewn iard agored wrth gefn y practis. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried modd o ddiogelu'r bin yn yr iard wrth aros i gael ei gasglu. Cytunodd y practis i wneud hyn. Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda'r cyngor sir lleol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio benodedig a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).<sup>2</sup>

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio. Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf<sup>3</sup> a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y practis yn cynnal gwiriadau o'r offer ar ddechrau a diwedd pob diwrnod i gadarnhau eu bod yn effeithiol ac yn ddiogel i'w defnyddio.

---

<sup>2</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghlŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

<sup>3</sup> Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

Dangosodd staff y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio. Roedd y staff yn cynnal proses lanhau â llaw cyn i offer gael eu prosesu trwy'r awtoclaf. Gwnaethom argymell rhai meysydd lle gellid gwella'r broses ddadheintio, fel sy'n cael ei argymell gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod gan y practis broses ar waith i wneud yn siŵr bod y gyfran gywir o lanedydd a dŵr yn cael ei defnyddio yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr. Gwnaethom argymell hefyd y dylai'r practis ddefnyddio'r thermomedrau a brynwyd yn ddiweddar i sicrhau bod y dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn y broses lanhau â llaw yn cyrraedd y tymheredd argymelledig. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croesheintio. Roedd y dyddiadau erbyn pryd y dylid defnyddio neu ailbrosesu offer (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd; fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gweld cynllun gweithredu o ganlyniad i'r archwiliad. Gwnaethom argymell y gallai'r practis ystyried cyflwyno'r archwiliad er mwyn cael cynllun gweithredu i ganiatáu iddo fynd i'r afael ag unrhyw welliannau sydd eu hangen. Cytunodd y practis i wneud hyn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau wrth lanhau offer â llaw ei fod yn gwneud hynny yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a, lle bo'n bosibl, y dilynir canllawiau'r gwneuthurwr.

#### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewyg), a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom gofnodion hefyd a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r cyfarpar yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Roedd tystysgrifau ar gael a oedd yn dangos bod y staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf.

Gwelsom fod y practis wedi hyfforddi a phenodi un swyddog cymorth cyntaf. Gwnaethom argymell y gallai'r practis ystyried hyfforddi swyddog cymorth cyntaf ychwanegol i fod ar gael i gefnogi, ac yn absenoldeb, yr unigolyn arall.

Dylai'r practis ystyried canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<sup>4</sup> mewn perthynas â swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig yn y gweithle. Cytunodd y practis i ystyried gwneud hyn.

### **Diogelu plant ac oedolion mewn perygl**

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff priodol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion, a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos hyn.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon cysylltiedig â'r gwaith wrth uwch-staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom edrych ar yr ystafell driniaeth yn y practis, a nodi ei bod yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafell driniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Canfuom fod yr offerynnau deintyddol yn y ddeintyddfa mewn cyflwr da ac roedd digon ohonynt.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis amlygu'r ffaith bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell driniaeth, gan ddefnyddio cymorth gweledol. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff i gyd wedi diweddarau eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod archwiliadau rheolaidd o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau fel rhan o waith monitro'r practis ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth

---

<sup>4</sup> <http://www.hse.gov.uk/firstaid/>

gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen. Gwnaethom argymhell y dylai hyn gael ei roi ar waith. Cytunodd y practis i wneud hyn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn amlygu'r ffaith bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio o fewn yr ystafelloedd triniaeth, gan ddefnyddio cymorth gweledol.

Dylai'r practis weithredu archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer y pelydrau-X a dynnir i sicrhau ansawdd y delweddau.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn ddiweddar o'i drefniadau dadheintio, ac archwiliad gwrthfeicrobaidd ym mis Rhagfyr 2015. Ni welsom, fodd bynnag, fod gan y practis raglen ar waith ar gyfer ymgymryd ag amrediad ehangach o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Gwnaethom drafod hyn â'r practis ac argymhell y dylai ystyried gweithredu rhaglen o archwiliadau drwy gydol y flwyddyn. Cytunodd y practis i wneud hyn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel y bo'n briodol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi



Gwelsom fod y deintyddion wedi cwblhau dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth<sup>5</sup> yn ddiweddar, gyda'r nod o ddarparu gofal o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth i ddangos bod unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn y practis. Roedd hyn yn peri risg bosibl o'r deintyddion yn ymarfer mewn arwahanrwydd clinigol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel modd o nodi gwelliannau o ran ymarfer, a chytunodd i wneud hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar bapur ac yn electronig. Gwnaethom ganfod bod cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo a chofnodion electronig wedi'u diogelu gan gyfrinair i sicrhau mai dim ond staff priodol oedd yn gallu eu gweld.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Canfuom feysydd pryder yn ymwneud â safon cofnodion yng nghofnodion cleifion, a oedd yn golygu nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod cleifion yn derbyn safon dderbyniol o ofal a thriniaeth.

Gwnaethom nodi bod yn rhaid gwneud gwelliannau i'r canlynol:

- Canfuom fod rhai cofnodion papur yn anhrefnus a bod posibilrwydd y gallai cofnodion cleifion gael eu cymysgu neu eu colli.
- Nid oedd y rhesymau dros y cyfnodau rhwng apwyntiadau cleifion wedi'u cofnodi'n gyson, a oedd yn golygu ei bod yn anodd dehongli'r cyfiawnhad dros wahanol amserau adalw cleifion.

---

<sup>5</sup> <https://www.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

- Roedd canlyniadau archwiliadau periodontol sylfaenol yn cael eu cofnodi'n anghyson yng nghofnodion y cleifion, ac nid oedd canllawiau ar gyfer triniaeth yn cael eu dilyn yn briodol yn ôl yr angen.
- Nid oedd rhai cleifion wedi cael tynnu delwedd pelydr-X ers cyfnod sylweddol o amser, nad yw'n unol â'r canllawiau argymelledig.
- Roedd y cofnodion ar gyfer archwiliadau meinwe feddal, gan gynnwys sgrinio ar gyfer canser, yn gyfyngedig. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei wneud ar gyfer pob claf ym mhob apwyntiad, ond nid oedd yn cael ei gofnodi fel archwiliad ar wahân.

Trafodwyd y canfyddiadau'n fanwl â'r deintyddion a gwnaethom argymell y dylent roi rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar waith i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu cofnodion cleifion, yn ogystal â chyflwyno archwiliad o gardiau cofnodion cleifion. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yn ogystal â hyn, nid oedd y rheswm dros gymryd sganiau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintydd a gafwyd ganddynt wedi cael eu cofnodi yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gynnal sganiau pelydr-X a'r canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd dau ddeintydd yn berchen ar ac yn rheoli'r practis, ac roeddent yn cael eu cefnogi gan reolwr practis a thîm staff cyfeillgar. Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-staff y practis, a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae dau ddeintydd yn berchen ar ac yn rheoli Newport Smile Centre (Gupta & Gupta Ltd.), ac maent yn cael eu cefnogi gan reolwr practis a thîm practis ehangach. Mae'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis, sydd hefyd yn gweithredu fel hylenydd y practis. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd perchenogion y practis a rheolwr y practis eu bod yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd practis a gynhaliwyd yn rheolaidd, ac roedd y cofnodion hyn yn cael eu darparu ar gyfer pob aelod o'r staff a'u storio mewn ffeiliau personél unigol.

Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod rhai polisïau pwysig wedi cael eu

llofnodi gan y staff i ddangos eu bod wedi darllen a deall y cynnwys, ac wedi'u storio yn eu ffeiliau personél. Roedd y practis yn cadw cofnod o ddyddiadau i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## **Staff ac adnoddau**

### **Gweithlu**

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu 'hargymell yn fawr iawn'.

Roedd y practis wedi recriwtio tri aelod o staff yn ddiweddar, a gwelsom fod gwiriadau cyn-cyflogaeth priodol wedi cael eu cynnal.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi derbyn arfarniad ar eu perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf ac roedd cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'r arfarniadau hyn.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau. Nid oedd cofnodion un aelod o'r staff ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, a chawsant eu hanfon at AGIC y diwrnod wedyn. Gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau bod cofnodion statws imiwedd y staff ar gael i'w harchwilio gan AGIC ar gais.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd ar gyfer y deintyddion sy'n gweithio yn y practis.

## 4. Beth sydd nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae'n cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae'n cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae'n cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Newport Smile Centre (Gupta & Gupta Ltd.)

**Dyddiad yr arolygiad:** 22 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau a oedd angen sylw ar unwaith				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**



## Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Newport Smile Centre (Gupta & Gupta Ltd.)

Dyddiad yr arolygiad: 22 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r practis roi proses ar waith sy'n galluogi cleifion i ddarparu adborth am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Cynnal arolwg boddhad cleifion (25 claf). Mae llyfr adborth/awgrymiadau eisoes yn cael ei gadw yn y dderbynfa.	AG	1 mis
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Dylai'r practis sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae'r bin gwastraff peryglus yn cael ei glymu'n ddiogel wrth y grisiau haearn.	AG	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis sicrhau wrth lanhau offer â llaw ei fod yn gwneud hynny yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a, lle bo'n bosibl, y dilynr canllawiau'r gwneuthurwr.</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p>	<p>Mae canllawiau manwl ar gyfer glanhau â llaw wedi'u harddangos yn yr ystafell ddadheintio. Gwnaed newidiadau i'r canllawiau yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr. Mae angen i'r aelod o'r tîm sy'n gyfrifol am ddadheintio ddarllen a llofnodi'r canllawiau.</p>	<p>AG</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn amlygu'r ffaith bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio o fewn yr ystafelloedd triniaeth, gan ddefnyddio cymorth gweledol.</p> <p>Dylai'r practis weithredu archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer y pelydrau-X a dynnir i sicrhau ansawdd y delweddau.</p>	<p>2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol</p>	<p>Gosodwyd arwydd yn rhybuddio am berygl o ymbelydredd y tu allan i'r ystafell driniaeth.</p> <p>Bydd archwiliad o'r cyfarpar pelydr-X yn cael ei weithredu.</p>	<p>AG</p>	<p>3 mis</p>
<p>Dylai'r practis gynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel y bo'n briodol.</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Archwiliadau clinigol ar gyfer</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Cyfnodau rhwng galw cleifion yn ôl</li> <li>2) Monitro periodontol</li> </ol>	<p>AG</p>	<p>6 mis</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.	3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi	Wedi siarad â Dan Cook yn y Cyngor Deintyddol Lleol, a byddaf yn trefnu adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.	AG	6 mis
Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion	<p>1) Amcanion dysgu hyfforddiant Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>•Bod yn hyderus ynghylch yr hyn y dylai eich cofnodion clinigol ei gynnwys yn union.</li> <li>•Cael trosolwg o reoliadau'r GIG, a gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Comisiwn Ansawdd Gofal, o ran cadw cofnodion.</li> <li>•Y ffordd orau o weithredu eich gwaith o gadw cofnodion – tasg i'r tîm cyfan.</li> <li>•Sut y dylech gofnodi'r broses gydsynio?</li> <li>•Sut i sicrhau archwiliadau effeithiol o'r broses cadw cofnodion ac o ganlyniad monitro ansawdd y driniaeth.</li> </ul>	AG, VG	2 wythnos

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gynnal sganiau pelydr-X a'r canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>•Bod yn ymwybodol o'r goblygiadau y bydd yn eich wynebu os na chedwir cofnodion da.</li> </ul>	AG	3 wythnos
		<p>2) Hysbysu AGIC ar ôl cwblhau'r hyfforddiant. Hefyd, ymgorffori amcanion hyfforddiant i mewn i gofnodion digidol.</p>	AG	6 wythnos
			AG, VG	2 wythnos
		<p>3) Archwilio'r cofnodion gan ddefnyddio dull archwilio Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, ac adrodd am ganlyniadau'r archwiliad i AGIC.</p>	AG, VG	2 wythnos
		<p>4) Hyfforddiant ar gyfer sgrinio periodontol, asesiadau risg ac archwiliadau.</p>		Ar unwaith 6 wythnos
<p>1) Diweddarau hyfforddiant RhYİ(DM) ar gyfer y ddau ddeintydd yn y practis, gan ddefnyddio Dent RPA.</p>				
<p>2) Dechrau defnyddio sticeri pelydr-X ar gyfer cyfiawnhad, ansawdd ac</p>				

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		adroddiadau. 3) Cynnal archwiliad, ac adrodd am ganlyniadau'r archwiliad i AGIC.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Amrish Gupta  
**Swydd:** Cyfarwyddwr / Perchennog  
**Dyddiad:** 23 Mehefin 2017